Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cefneithin
# Heol Y Parc
# Cefneithin
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 7DE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2015**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd gymunedol a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Gynradd Cefneithin.  Lleolir yr ysgol yng nghanol y pentref a gwasanaetha'r pentref ei hun a'r ardal wledig gyfagos.  Derbynnir plant i'r ysgol ar ddechrau'r tymor y maent yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed.  Ar hyn o bryd, mae 72 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr.  Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.  O ganlyniad, mae'r ysgol wedi cynyddu nifer y dosbarthiadau o ddau i dri ac wedi cyflogi staff newydd i gwrdd â'r galw.

Tua 18% o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd.  Daw 31% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.  Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.  Mae tua 16% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym mis Ebrill 2009.  Mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn ansefydlog dros y 18 mis diwethaf ers ymddeoliad y pennaeth blaenorol.  Mae'r pennaeth gweithredol, sydd hefyd yn bennaeth ar ysgol gyfagos, yn ei swydd ers Medi 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cefneithin yn 2014-2015 yw £3,961.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325.  Mae Ysgol Gynradd Cefneithin yn y 37ain safle o'r 95 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u hoed â'u gallu
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith
- Bod safonau ymddygiad yn dda, gyda disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion
- Bod staff yn cynllunio gweithgareddau addas wedi'u seilio ar themâu cyfoes, sy'n ysgogi diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus
- Bod strategaethau addas ar waith i gynorthwyo'r disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith

Fodd bynnag:

- Nid yw safonau'r Gymraeg yn gyson ar draws yr ysgol
- Nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud y cynnydd y disgwylir iddynt ei wneud
- Nid yw athrawon yn adnabod digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- Bod y pennaeth gweithredol wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi safonau
- Bod y ddogfen hunan arfarnu cyfredol ar y cyfan yn portreadu darlun cywir o gryfderau'r ysgol ac agweddau sydd angen eu datblygu
- Bod yr ysgol wedi gosod prosesau cadarn yn eu lle i godi safonau presenoldeb
- Bod yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinwyr yr ysgol wedi gweithredu'n ddigon effeithiol ar ganfyddiadau'r weithdrefn fonitro, i fynd i'r afael â nifer o agweddau sydd angen eu gwella
- Nid yw dangosyddion llwyddiant y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn ddigon meintiol, sy'n cyfyngu ar allu arweinwyr i arfarnu cynnydd
- Nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o berfformiad yr ysgol er mwyn ei herio yn ddigon cyson ynghylch ei pherfformiad

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg

A2 Gwella ansawdd y cynllunio

A3 Darparu tasgau sy'n herio disgyblion mwy abl yn briodol

A4 Cryfhau rôl aelodau'r corff llywodraethol fel ffrindiau beirniadol

A5 Grymuso ansawdd y weithdrefn fonitro er mwyn adnabod agweddau sydd angen eu datblygu yn well

A6 Gosod dangosyddion llwyddiant meintiol a chlir yng ngynllun datblygu'r ysgol a'u defnyddio'n briodol i arfarnu cynnydd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion, wrth ddechrau'r ysgol, yn amrywio. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u hoed â'u gallu. Yn gyffredinol, maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn briodol ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth addas o'r hyn maent wedi'i ddysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae diffyg geirfa a hyder yn cyfyngu ar allu ychydig o ddisgyblion i sgwrsio a thrafod yn y Gymraeg. Mae ychydig o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol gyda'u darllen. Fodd bynnag, mae llawer yn darllen yn llafurus gan ddefnyddio strategaethau cyfyng i ddarllen geiriau anghyfarwydd ac mae ganddynt ddiffyg dealltwriaeth o'r testun.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus gydag ychydig o'r disgyblion mwy abl yn trafod gydag aeddfedrwydd a chan ddefnyddio geirfa briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn hyderus yn Saesneg gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen lleiafrif o'r disgyblion wedi datblygu i'r un graddau yn y Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn medru cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn addas gan ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol. Mae'r mwyafrif yn defnyddio ffurf gryno'r ferf yn gyson ac yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Er hynny, nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd wrth ysgrifennu'n estynedig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol, yn arbennig yn Saesneg. Mae'r mwyafrif yn atalnodi, ac yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddefnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion adio a thynnu yn gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol i ddatrys problemau mathemategol syml ar draws y meysydd dysgu. Gall y mwyafrif ddisgrifio nodweddion siapiau dau a thri dimensiwn gan ddefnyddio geirfa fathemategol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwneud y cynnydd y disgwylir iddynt ei wneud.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer datrys problemau rhif; er enghraifft, cofnodi a dehongli canlyniadau arbrawf i fesur effaith gweithgaredd corfforol ar guriad y galon gan ddefnyddio graffiau amrywiol. Serch hynny, nid yw mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cymwys mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol.

Mae cyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Bu yn yr 50% is y flwyddyn cyn hynny. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol wedi bod yn yr 50% is am ddwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Yn 2014, cododd perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant uwch, dros y tair blynedd ddiwethaf, wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mewn datblygiad mathemategol, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% isaf am ddwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Yn 2014, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% isaf mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg ac mewn datblygiad mathemategol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf ym mhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd cynnydd i weld yn neilliannau'r disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, lle'r oedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf.

Dros amser, mae perfformiad ar y lefel uwch wedi amrywio heb ddangos tuedd amlwg. Yn 2014, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r lefel ddisgwyliedig, yn yr 25% isaf mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn gyffredinol, nid yw cyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim cystal â'r gweddill ar y deilliant disgwyliedig na'r deilliant uwch, ac eithrio ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau uwch.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth dros amser o gymharu perfformiad bechgyn gyda pherfformiad merched, ac eithrio cyflawniadau ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, lle mae'r bechgyn yn perfformio'n well yn gyson.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn amgylchedd hapus lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Maent yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn teimlo'n rhydd i droi at staff neu ffrindiau am gymorth pan fo'r angen. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol o fewn yr ysgol ac o fewn clybiau wedi oriau ysgol er mwyn cadw'n iach.

Mae safonau ymddygiad yn dda, gyda disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion. Trwy fentrau fel y 'Bydîs', mae'r disgyblion yn datblygu synnwyr cryf o gyfrifoldeb am les eraill a gofal dros eu cyd-ddisgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Maent yn frwdfrydig, yn awyddus i ddysgu ac yn arddangos dyfalbarhad yn eu gwaith. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd ac mae medrau'r mwyafrif i wella eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, yn datblygu'n gadarn.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau lleol sy'n ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau i'w cymuned leol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r prosiect tyfu llysiau yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o agweddau o fentergarwch yn dda. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol, er enghraifft drwy sefydlu rheolau'r ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu dyletswyddau i helpu eu cyd-ddisgyblion â'u hymdrechion i godi arian er lles eraill. Enghraifft o hyn yw'r arian a godwyd yn dilyn trychineb mewn pwll glo lleol. Maent yn adrodd i'r corff llywodraethol yn rheolaidd ar waith y cyngor ysgol.

Dros amser, mae canran presenoldeb disgyblion wedi bod yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg. Erbyn hyn, mae presenoldeb wedi gwella ac mae'r ysgol bellach yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau addas sydd wedi eu seilio ar themâu cyfoes. Mae'r rhain yn ysgogi diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau cydbwysedd pynciol, yn hyrwyddo dilyniant priodol yn y profiadau dysgu, nac yn cynnig digon o her i'r disgyblion mwyaf abl.

Mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â chyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, nid yw hyn eto wedi cael digon o effaith ar y cyfleoedd a ddarperir i'r disgyblion ddefnyddio'r medrau hyn yn ddigon cyson mewn pynciau ac agweddau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig a'r iaith Gymraeg yn gadarn. Trwy astudio hanes lleol, a hanes bywyd a gwaith Cymry enwog fel Owain Glyndŵr, William Morris a Betsi Cadwaladr, mae dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a hanes a diwylliant Cymru yn datblygu'n effeithiol. Mae ystod o ymweliadau, sgwrsio ag ymwelwyr a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda.

Mae ailgylchu, arbed ynni a chynaliadwyedd yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Mae gwaith y cyngor eco yn cyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd. Enghreifftiau da o hyn yw ymroddiad y disgyblion i dyfu llysiau a ffrwythau ar randir yr ysgol, a'r cyfleoedd cyson iddynt gasglu a thrin data o orsaf dywydd yr ysgol. Mae ymwneud yr ysgol â gwaith elusennol sy'n cysylltu Cymru a Romania yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn dda.

## Addysgu: Digonol

Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae cyflymder addas i’r gwersi, sy’n dal sylw disgyblion yn briodol. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy’n adeiladu’n briodol ar wybodaeth flaenorol ac yn rhannu amcanion dysgu yn glir, fel bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud. Defnyddia mwyafrif yr athrawon holi treiddgar ac agored er mwyn datblygu a gwella dealltwriaeth y disgyblion o’r tasgau, a’u hannog i ymhelaethu ar eu hatebion.

Mewn lleiafrif o wersi, lle nad yw’r addysgu cystal, mae cyflymder y gwersi yn araf, ac mae disgyblion yn colli diddordeb. Mae lleiafrif yr athrawon yn gor-arwain y dysgu ac mae diffyg her i’r disgyblion mwy abl. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn llyfrau gwaith y disgyblion.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Lle mae'r marcio’n fwyaf effeithiol, mae sylwadau’r athrawon yn cyfeirio’n uniongyrchol at y meini prawf llwyddiant ac yn sicrhau bod y disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Fodd bynnag, er bod y strategaethau hyn yn cael eu defnyddio ym mhob dosbarth, nid yw lleiafrif yr athrawon bob amser yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn ymateb i’r cyngor a roddwyd iddynt.

Mae’r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefn newydd i olrhain cynnydd disgyblion yn ddiweddar. Mae athrawon yn cofnodi canlyniadau asesiadau a thasgau penodol pob disgybl yn drefnus. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i weld effaith hyn ar y cynllunio, yn enwedig ar gyfer mynd i’r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r rhieni yn cynnig gwybodaeth glir am allu'r disgyblion ac yn bodloni’r gofynion statudol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol, ac mae ganddi bolisïau priodol i gefnogi’r ddarpariaeth hon. Cynigir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn rheolaidd ac mae’r llysgenhadon chwaraeon yn cymryd rhan flaenllaw i hybu hyn yn ystod amser egwyl. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr sy’n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol disgyblion yn dda trwy gyflwyniadau mewn gwasanaethau a gweithgareddau eraill yn rheolaidd. Er enghraifft, mae’r blychau becso yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu profiadau ac i drafod materion sydd o bwys iddynt.

Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol cymdeithasol a lles i gefnogi’r disgyblion. Er enghraifft, mae gan yr ysgol strategaethau clir ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da, gan gynnwys defnydd effeithiol o wasanaeth lles yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi cael effaith nodedig ar lefelau presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion. Mae’r ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd ymddygiad da ac mae ganddi strategaethau clir i hybu hyn, ac mae’n cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o weithdrefnau effeithiol er mwyn adnabod anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn gynnar. Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth pwrpasol i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn yn effeithiol. Caiff y cynlluniau addysg unigol eu llunio a'u hadolygu'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cartrefol a theuluol yn perthyn i'r ysgol. Ei phrif nod yw creu cydweithio da rhwng staff, disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. O ganlyniad, mae yma awyrgylch clos a hapus. Mae rheolau'r ysgol yn meithrin balchder y disgyblion yn eu Cymreictod ac yn gwneud iddynt barchu eraill o'u cwmpas.

Mae'r disgyblion yn mwynhau ystod eang o brofiadau drwy glybiau amrywiol yr ysgol ac mae'r cyfleoedd hyn ar gael i bawb yn ddiwahân. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol yn anelu at sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac yn parchu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn dda.

Gwelir arddangosfeydd amrywiol ar draws adeilad yr ysgol sy'n cynnig cipolwg ar brofiadau a gweithgareddau'r disgyblion. Ceir adnoddau pwrpasol ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Fe ddatblygwyd buarth chwarae'r ysgol yn ddiweddar drwy gefnogaeth ariannol elusen leol. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar les a medrau cymdeithasol y disgyblion.

Caiff yr adeilad a'r safle eu cynnal a'u cadw'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae'r pennaeth gweithredol wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi safonau a mireinio systemau'r ysgol i'w gwneud yn fwy effeithiol.

Mae'r pennaeth gweithredol a staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a nifer o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld gwir effaith arweinyddiaeth ar ddeilliannau disgyblion hyd yma.

Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swyddi cyfredol, ac mae eu cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Maent yn cyflawni eu rolau yn briodol mewn perthynas â chynlluniau a chyfeiriad strategol yr ysgol. Mae cydlynwyr pwnc yn dechrau cymryd rhan fwy gweithredol wrth fonitro safonau'r dysgu, ond nid yw eu rôl wedi datblygu'n llawn hyd yma.

Mae arweinwyr yr ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol ac wedi addasu cynlluniau gwaith yn ddiweddar er mwyn ceisio ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol er mwyn ymateb i amddifadedd disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol. Fodd bynnag, dros gyfnod o amser, nid ydynt wedi herio'r ysgol yn ddigon cyson ynghylch ei pherfformiad. Yn ddiweddar, trwy 'deithiau dysgu' a chraffu ar lyfrau, mae eu dealltwriaeth o safonau'r ysgol yn datblygu'n briodol. Maent yn derbyn adroddiadau cyson gan y pennaeth gweithredol ar berfformiad, sydd wedi gwella eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu ac ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau bob amser yn canolbwyntio digon ar safonau na'r agweddau sydd angen eu datblygu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r adroddiad hunan arfarnu cyfredol, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn portreadu darlun cywir o gryfderau'r ysgol ac agweddau sydd angen eu datblygu. Mae'r ddogfen yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth fel deilliannau'r gweithdrefnau monitro, holiaduron rhieni a disgyblion, a dadansoddiad o ddata perfformiad yr ysgol.

Yn ddiweddar, caiff canfyddiadau'r gweithdrefnau monitro eu rhannu'n briodol gyda'r staff a'r llywodraethwyr mewn cyfarfodydd rheolaidd. Yn gyffredinol mae'r adroddiadau monitro yn nodi cryfderau cymwys. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn amlygu'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach yn ddigon manwl a miniog. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi gweithredu'n ddigon effeithiol ar ganfyddiadau'r gweithdrefnau monitro i fynd i'r afael â'r diffygion yn y cynllunio, y profiadau dysgu, na'r addysgu.

Mae cyswllt priodol rhwng yr adroddiad hunan arfarnu a'r cynllun datblygu ysgol, sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'n cynnwys nifer o dargedau hylaw, strategaethau addas ar gyfer gwella, ynghyd â threfniadau monitro priodol. Serch hynny, nid yw'r dangosyddion llwyddiant bob amser yn ddigon meintiol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i arfarnu cynnydd yn fanwl yn eu herbyn. Dros gyfnod, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi monitro'r cynllun datblygu yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw gwelliannau wedi bod yn ddigon cyson.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau er mwyn cefnogi disgyblion yn llwyddiannus. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae llythyron rheolaidd a gwefan yr ysgol yn fodd effeithiol o rannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn gyson. Mae cymdeithas 'Ffrindiau'r Ysgol' yn frwdfrydig ac yn gefnogol iawn. Trwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau, maent yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol. Yn ddiweddar, cefnogwyd yr ysgol i brynu adnoddau megis offer TGCh, ac i dalu am gostau cludiant ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a’r gymuned leol. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gyfrannu tuag at weithgareddau cymunedol fel gwasanaethau yn y capel lleol a chystadlu yng nghystadleuaeth celf flynyddol y gymuned. Mae’r cyfleoedd hyn, ynghyd â sgwrsio gyda’r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i’r ysgol, yn cyfoethogi’r profiadau dysgu yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn gydag amryw o asiantaethau'r awdurdod lleol, a’r consortiwm. Mae hyn yn cael effaith bositif ar bresenoldeb, lles a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae cyswllt effeithiol gyda’r cylch meithrin yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu’n gyflym wrth iddynt ddechrau’n amser llawn yn yr ysgol. Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol hefyd yn bodoli gyda’r ysgol uwchradd sy’n paratoi’r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae nifer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio ar brosiectau amrywiol i ddatblygu agweddau penodol ar y cwricwlwm; er enghraifft, cynhelir prosiectau ymestynnol mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg ar gyfer disgyblion mwy abl.

Mae’r cydweithio effeithiol gyda thair ysgol gynradd o fewn y dalgylch i rannu arfer dda a hwyluso cynllunio ar y cyd, yn datblygu’n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i fesur effaith y bartneriaeth hon ar ddeilliannau disgyblion. Mae cydweithio buddiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch i gyd safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod. Mae hyn wedi datblygu hyder athrawon wrth lefelu gwaith ac asesu cynnydd disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff addysgu a chynorthwywyr dosbarth, ac mae’n gwneud defnydd effeithiol o’u harbenigedd i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen a’r Cwricwlwm Cenedlaethol ac i roi cymorth priodol i unigolion. Defnyddir arbenigedd staff ysgol gyfagos yn effeithiol i gefnogi agweddau penodol ar y cwricwlwm, fel addysg gorfforol, ac i ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Gwna’r athrawon ddefnydd effeithiol o’u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn weithredol o fewn yr ysgol i athrawon a chynorthwywyr. Mae hyn wedi arwain yn briodol at ddiwallu anghenion datblygiad proffesiynol y staff. Mae cymuned ddysgu broffesiynol ar waith gydag ysgolion eraill y dalgylch, sy’n canolbwyntio ar godi safonau’r disgyblion mewn gweithgareddau rhifedd. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i fesur effaith y cydweithio hwn hyd yma.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau’r cynllun datblygu. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o’r grant amddifadedd disgyblion i gynnig cefnogaeth yn y medrau sylfaenol ac i gynyddu presenoldeb disgyblion bregus. Mae’r ddarpariaeth hon yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles y disgyblion hyn. Trwy fonitro a rheoli’r gyllideb yn briodol, mae’r corff llywodraethol wedi lleihau’r diffyg yn y gyllideb yn llwyddiannus.

O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692000 - Ysgol Gynradd Cefneithin**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 54 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 8 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 85.7 | 75.0 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 8 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 75.0 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 0.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 8 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 87.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.3 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 8 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 14.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692000 - Ysgol Gynradd Cefneithin**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 54 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 11 | 5 | 11 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 81.8 | 100.0 | 90.9 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 5 | 11 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.8 | 100.0 | 90.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.3 | 40.0 | 27.3 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 5 | 11 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.8 | 60.0 | 90.9 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 9.1 | 0.0 | 18.2 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 5 | 11 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.8 | 100.0 | 90.9 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.3 | 60.0 | 27.3 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 5 | 11 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 100.0 | 90.9 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 18.2 | 20.0 | 36.4 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 36 | 36<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 36 | 34<br>94% | 2<br>6% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 36 | 36<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 36 | 36<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 36 | 36<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 36 | 35<br>97% | 1<br>3% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 36 | 36<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 36 | 36<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 36 | 36<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 36 | 35<br>97% | 1<br>3% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 36 | 34<br>94% | 2<br>6% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 36 | 34<br>94% | 2<br>6% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 20 | 11 | 8 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 55% | 40% | 5% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 20 | 15 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 20 | 15 | 4 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 20 | 9 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 45% | 50% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 20 | 6 | 11 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 30% | 55% | 5% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 20 | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 50% | 40% | 10% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 20 | 9 | 8 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 45% | 40% | 5% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 18 | 8 | 6 | 1 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 33% | 6% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 11 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 55% | 35% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 9 | 8 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 40% | 5% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 20 | 11 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 55% | 35% | 5% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 18 | 7 | 6 | 1 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 39% | 33% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 7 | 10 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 35% | 50% | 15% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 14 | 5 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 70% | 25% | 5% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 20 | 9 | 4 | 4 | 1 | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 20% | 20% | 5% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 9 | 8 | 2 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 45% | 40% | 10% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 16 | 7 | 2 | 1 | 1 | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 44% | 12% | 6% | 6% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 11 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 18 | 10 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 56% | 39% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eifion Lloyd Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Amanda Lawrence | Arolygydd Cymheiriaid |
| Beverly Owen | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.